Mae'r cofair AWARE yn helpu i sicrhau fod "llais y plentyn" yn cael ei glywed a'i ystyried yn gyson mewn sefyllfaoedd yn ymwneud ag amddiffyn plant. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer gweithwyr proffesiynol i wneud asesiadau risg mwy cywir a dealltwriaeth well o anghenion y plentyn, gan gyfrannu tuag at ganlyniadau amddiffyn plant mwy effeithiol. Er bod y cofair wedi'i ddatblygu i gynorthwyo swyddogion yr heddlu i gasglu tystiolaeth am blant yn rhan o'u rôl i asesu ac adrodd, mae'r cofair yn ased gwerthfawr a all/ddylai gael ei ystyried gan holl asiantaethau. Mae dysgeidiaeth o AYP yn awgrymu y gallai defnyddio'r cofair amlygu bod angen ystyried ble'r oedd y plentyn/plant a phrofiad bywyd beunyddiol y plentyn wrth weld cam-drin domestig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae gwrando ar lais y plentyn yn hanfodol ar gyfer ymarfer diogelu effeithiol. Gall lais y plentyn gynnwys yr hyn sy'n cael ei ddweud a'r hyn nad yw'n cael ei dweud, dangosyddion llafar a dilafar.

Er enghraifft, nid yw'n dderbyniol dweud:

- 'Nid oedd yn achos domestig, felly ni siaradais gyda'r plentyn'
- 'Ni wnaiff y plentyn ymgysylltu gyda gwasanaethau'
- 'Mae'r plentyn yn amharchus ac nid yw'n cydymffurfio'
- 'Roedd y plentyn yn cysgu'
- 'Ni siaradwyd gyda'r plentyn; dim ond babi yw'r plentyn'

Yn hytrach:

Ymddangosiad: yw'r plentyn yn ordew / o dan eu pwysau... oes ganddynt ddillad glân... ydyn nhw'n edrych wedi blino, yn ofnus, ydych chi wedi eu gweld yn crio, chwerthin, gwenu?
Geiriau: pa fath o iaith sy'n cael ei ddefnyddio... beth gafodd ei ddweud... a yw'n iaith sy'n or-gyfarwydd, a yw'n amhriodol ar gyfer oedran y plentyn... a yw'r hyn maent yn ei ddweud am y ffordd maent yn teimlo yn cyd-fynd ag iaith eu corff...
Ymddygiad: a ydynt yn wyliadwrus... yn gofidio... a oeddent yn ymgysylltu, a oeddent yn siarad gyda chi, a oeddent yn poeni am yr hyn oedd yn digwydd... sut oedd amodau'r cartref... a oedd y teganau'n briodol i'r oedran... a yw eraill yn ymddwyn yn wahanol o'u hamgylch neu fel arall...
Perthnasau a dynameg: gyda phwy maent yn byw... pwy sy'n mynd a dod... ydych chi wedi gofyn pwy arall sydd yn y cartref... pwy fyddech chi'n disgwyl... oes gan rywun mwy o awdurdod nac eraill?
Amgylchedd: a yw'r plentyn yn ddiogel... yw'r cartref yn ddiogel... a oes difrod, a yw'n fudr... unrhyw arwyddion o gamddefnyddio alcohol neu gyffuriau... a oes cloeon ar y drysau mewnol... a oes unrhyw fannau trosedd/ymddygiad gwrthgymdeithasol o amgylch y cartref.

Defnyddir y Fframwaith Profiad Byw AWARE i asesu'n gyfannol amgylchedd y cartref a diogelwch y plentyn:

Ymddangosiad: Sylwch ar gyflwyniad corfforol y plentyn, dillad a hylendid.
Geiriau: Cofnodwch beth mae'r plentyn yn ei ddweud neu'n ei gyfathrebu.
Gweithgarwch ac Ymddygiad: Arsylwch sut maent yn ymddwyn ac yn ymateb i'w hamgylchedd.
Perthnasau a Dynameg: Sylwch sut maent yn rhyngweithio gyda gofalwyr, brodyr a chwiorydd ac eraill sy'n bresennol.
Amgylchedd: Aseswch amodau ffisegol a diogelwch amgylchedd y cartref.

Defnyddir y Fframwaith Rhyngweithio AWARE i arwain gweithwyr proffesiynol ar sut i gyfathrebu gyda, a diogelu plant yn y lleoliad:

Gofynnwch: Ymgysylltwch gyda'r plentyn a gofynnwch iddyn nhw'n uniongyrchol am eu profiad.
Gwyliwch: Arsylwch eu hymddygiad, iaith y corff ac ysgogiadau dilafar.
Aseswch: Gwerthuswch unrhyw risgiau uniongyrchol i'r plentyn.
Cofnodwch: Cofnodwch eiriau ac ymddangosiad y plentyn yn gywir.
Sicrhewch: Sicrhewch eich bod yn deall ac yn mynd i'r afael â dymuniadau a theimladau'r plentyn.

https://www.bwrddiogelugogleddcymru.cymru/